PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 16 AWST 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Lay, Murphy a/ac Keith Parry |

15 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

16 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.

17 : DATGAN BUDDIANNAU

| Y CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Murphy | 17/01453/MJR | Personol |

18 : DEISEBAU

Cais rhif 17/00406/MNR, The Caerau, Bishopston Road.

Ni siaradodd y deisebwr gan y cafodd y cais ei ohirio ar gyfer ymweliad safle.

19 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGIAD

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. PENDERFYNWYD:
Y dylai’r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau’r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A RODDIR

17/00225/MJR – BUTETOWN
GORSAF FAE CAERDYDD, STRYD BUTE

Gwaith i alluogi adnewyddu'r adeilad ar gyfer lle swyddfa a phorthor, i gynnwys gwaredu’r canopi (ddim yn wreiddiol) a derbyn cysylltiad ag adeilad 4 llawr newydd at ddibenion manwerthu, swyddfa waith byw.
Rhoi caniatâd adeilad rhestredig.
Yn amodol ar atgyfeiriad at Cadw.

17/00906/MNR – YR EGLWYS NEWYDD/TONGWYNLAIS

CENTRAL GARAGE, 1 HEOL DEWI SANT
Ymestyn y safle garej i gynnwys dwy gilfach MOT ac addasiadau i ardal fewnol.

17/01453/MNR – CAERAU

TIR AR SAFLE HEN YSGOL UWCHRADD GLYN DERW A CHYFAGOS AG EF
Adeiladu Ysgol Uwchradd newydd, mynediad, parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygiad i Amod 2 ddarllen:

Caiff y datblygiad ei weithredu yn unol â'r cynlluniau a dogfennau cymeradwy canlynol:

1205_PDA_ZZ_00_DR_A_05_0003 Rev P03 (Cynllun Lleoliad)
1205_PDA_ZZ_00_DR_A_05_0004 Rev P18 (Cynllun Safle)
1205_PDA_V4_00_DR_A_05_0005 Rev P08 (Cynllun Lawr Daear)
1205_PDA_V4_00_DR_A_05_0005 Rev P08 (Cynllun Lawr Cyntaf)
1205_PDA_V4_RF_DR_A_05_0007 Rev P04 (Cynllun To)
1205_PDA_V1_ZZ_DR_A_05_0008 Rev P05 (Gweddau'r Prif Adeilad)
1205_PDA_V2_ZZ_DR_A_05_0012 Rev P05 (Gweddau'r Neuadd Chwaraeon)
1205_PDA_V3_ZZ_DR_A_05_0016 Rev P04 (Gweddau Ôl 16)
1205_PDA_ZZ_ZZ_DR_A_05_0019 Rev P04 (Adrannau'r Safle)
1205_PDA_ZZ_ZZ_DR_A_05_0020 Rev P05 (Adrannau Arfaethedig y Safle)
1205_PDA_V4_00_DR_A_05_0026 Rev P03 (Storfa Biniau)
1205_PDA_V4_XX_DR_A_90_0976 Rev P01 (Llochesi Beiciau Arfaethedig)
1205-CAM V4 00 DR C90-0127 Rev.P4 (Tudalen Ddadansoddi Llwybr Wedi'i Ysgubo 1)
1205-CAM V4 00 DR C90-0128 Rev.P4 (Tudalen Ddadansoddi Llwybr Wedi'i Ysgubo 2)
1205-CAM V4 00 DR C90-0129 Rev.P4 (Tudalen Ddadansoddi Llwybr Wedi'i Ysgubo 3)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0001-P005 (Tir sy'n Bodoli)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0002-P006 (Gwaith Coed Clirio'r Tirlun)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0003-P004 (Tirlun Cyffredinol)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0004-P003 (Manylion Plannu'r Tirlun)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0005-P003 (Amserlen Blannu'r Tirlun)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0006-P001 (Manylion Brodorol Gwyrch Coed)
1205-COR-ZZ-XX-SP-L-XX-0007 (Ôl-ofal Methodoleg Plannu'r Tirlun)
1205-MCP-V5-XX-DR-E-32-3202 REV P06 (Strategaeth Goleuadau)
1205-MCP-V5-XX-DR-E-32-3203 REV P04 (Goleuadau Allanol a Threfn Pŵer)

Datganiad Dyluniad a Mynediad gan Powell Dobson; Amlinelliad Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladau REV P02 (Willmott Dixon); Strategaeth Draenio Budr ac Arwynebau (Cambria: Ebrill 2017); Asesiad Goblygiadau Llifogydd (Atkins: Ionawr 2017); Adroddiad Arolwg Acwstig (Atkins: Ionawr 2017); Asesiad Effaith Sŵn Caeau Chwaraeon (Mach Acoustics: Mehefin 2017); Asesiad Façade Acwstig (Mach Acoustics: Mehefin 2017); Adroddiad Coedyddiaeth (ArbTS: 20 Rhagfyr 2016); Asesiad Effaith Coedyddiaeth a Datganiad Dull (First Ecology: Mehefin 2017); Diweddariad Ecolegol Dros Dro (First Ecology: Mehefin 2017); Gwerthusiad Ecolegol (First Ecology: Gorffennaf 2017); Arolwg a Chynllun Adnoddau Pridd (Land Research

Associates: Gorffennaf 2017); Adroddiad Ymchwiliad Safle (Atkins: Ionawr 2017); Adroddiad Ymchwiliad Safle Ategol (Johnson, Poole a Bloomer Land Consultants: Gorffennaf 2017); Arolwg Archeolegol a Geoffisegol (TerraDat: Ionawr 2017); Arolwg Geoffisegol wedi Diweddaru (Survey (Sumo Services Ltd: Mai 2017); Dyluniad Project ar gyfer Gwerthusiad Archeolegol (Headland Archaeology: Mehefin 2017); Adroddiad Gwerthusiad Archeolegol (Headland Archaeology: Gorffennaf 2017); Brîff Gwylio Archeolegol (Headland Archaeology: Gorffennaf 2017); Asesiad Treftadaeth (EDP Ltd Mehefin 2017); Asesiad Trafnidiaeth (Cyngor Caerdydd: Gorffennaf 2016; Cynllun Teithio (Atkins: Mehefin 2017) a Astudiaeth Ddichonoldeb Technoleg Carbon Isel a Dim Carbon (McCann a Phartneriaid: Mawrth 2017).

Yn amodol ar ddiwygio Amod 9 a fydd yn darllen:

'Cyn i unrhyw waith i adeiladu slabiau llawr daear yr adeilad gael ei wneud ac yn dilyn cwblhau'r cynllun monitro, caiff manylion arfaethedig y mesurau amddiffyn nwy priodol i sicrhau diogelwch a gwasgaru neu reoli diniwed o nwyau i mewn ac o dir sydd o gwmpas safle'r cais eu cyflwyno a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Os nad oes angen mesurau amddiffyn yna ni fydd angen camau gweithredu pellach. Caiff yr holl fesurau amddiffyn nwy gofynnol eu rhoi ar waith a'u dilysu'n briodol cyn i unrhyw berson fynd i mewn i'r datblygiad sydd wedi'i ganiatáu a chaiff y mesurau amddiffyn cymeradwy eu cadw a'u cynnal nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno yn ysgrifenedig nad oes angen y mesurau mwyach.'

Yn amodol ar ddiwygio Amod 24 a fydd yn darllen:

'Cyfyngir ar oriau agor adeiladau ysgolion fel a ganlyn:
Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 22:00 a dydd Sul 08:00 tan 20:00'

Yn amodol ar ddiwygio Amod 14 a fydd yn darllen:

'Cyn dechrau'r gwaith datblygu, gan gynnwys unrhyw waith ffensio, sy'n gysylltiedig â'r coetir i'r de o safle'r cais (yr ardal sy'n gyfochrog â'r A4232) caiff arolygon ecolegol eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwy ganddo. Os deuir o hyd i Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop, bydd yr arolygon yn cynnwys mesurau lliniaru priodol. Caiff y mesurau lliniaru eu rhoi ar waith yn llawn yn unol â'r manylion cymeradwy a chyn i waith coetir ddechrau.

Yn amodol ar Argymhelliad 6 ychwanegol a fydd yn darllen:

'Anogir yr ymgeisydd i ddod i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Parciau i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon yr ysgol ar gael am byth i'r gymuned eu defnyddio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion ysgol.'

Yn amodol ar ychwanegu Amod 33 a fydd yn darllen:

'Cyn i waith i adeiladu'r mur cynnal wrth ymyl bloc y chweched dosbarth ddechrau, caiff manylion am ei uchder a'i ddeunyddiau allanol eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo a chaiff y mur cynnal ei adeiladu fel y cymeradwywyd.'

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

17/00111/MJR – PLASNEWYDD

199-209 HEOL Y PLWCA
Adeiladu adeilad preswyl i fyfyrwyr gyda 5 i 8 llawr (yn ogystal â phlatfform pen tŷ); yn cynnwys 146 o ystafelloedd stiwdio a mannau amwynder cysylltiedig; iard mewn a phreifat wedi tirlunio a dwy uned fasnachol ar y llawr daear (Dosbarth A1 neu A2 neu A3)

17/00224/MJR – BUTETOWN

GORSAF FAE CAERDYDD, STRYD BUTE
Adnewyddu'r adeilad ar gyfer swyddfeydd a phorthor, i gynnwys gwaredu'r canopi (ddim yn wreiddiol) a datblygu adeilad wedi cysylltu â 4 llawr i greu lle llawr ychwanegol gan gynnwys unedau gwaith byw manwerthu (A1/A3), swyddfa (B1) a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygiad ychwanegol canlynol i Amod 28 a fydd yn darllen:

'Os nad yw gwaith yn dechrau ymhen 12 mis o'r arolwg ar gyfer ystlumod [cyn Gorffennaf 2018], neu, ar ôl iddo ddechrau, os caiff ei atal am unrhyw reswm am gyfnod sy'n fwy na 12 mis, dylid ailasesu'r posibilrwydd o'r presenoldeb o rywogaethau a amddiffynnir, ac ni fydd gwaith yn dechrau neu gael ei ailddechrau cyn i arolwg arall gael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Dylai'r arolwg gael gwybod i) a oes newidiadau wedi bod ym mhresenoldeb a/neu helaethrwydd ystlumod; ii) nodi unrhyw effeithiau newydd tebygol a allai godi o unrhyw newidiadau; cynnig lleihad priodol os oes newidiadau wedi bod, ac amserlen i'w gweithredu.'

Yn amodol ar y diwygiad ychwanegol canlynol i Amod 29 a fydd yn darllen:

'Cyn dechrau gwaith ar y safle; gan gynnwys unrhyw waith i stripio ffabrig yr adeilad yn galed ac yn feddal, bydd yr ymgeisydd yn darparu ar gyfer ecolegydd i friffio'r holl gontractwyr mewn perthynas â'r canlynol:

- *Rhoi sgyrsiau blwch offer i weithredwyr safle fel y byddant yn ymwybodol y gallai ystlumod fod yn bresennol.*
- *stripio nodweddion megis teils to, soffitiau, estyll tywydd, ffasgau ac ati ac unrhyw nodweddion eraill y gallai ystlumod eu defnyddio i glwydo neu wneud clwyd yn feddal.*
- *Cael ecolegydd ar alwad rhag ofn y deuir o hyd i ystlumod tra bod gwaith yn cael ei wneud.*
  *Os na ddeuir o hyd i ystlumod, dylid stopio gwaith yn syth a dylid cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor.*

- *Ymgorfforі mesurau gwella ar gyfer ystlumod, megis briciau ystlumod, teils ystlumod neu alluogi ystlumod i fynd i mewn i doeau gwag.*
  *Fel y cynghorwyd gan ymgynghorydd allanol ecolegol yr ymgeisydd.*

16/01852/MNR - GABALFA

UPLANDS MOBILES LIMITED, 184 HEOL Y GOGLEDD
Cynnig dymchwel estyniad rhandy yn y cefn a newid eiddo i greu 4 fflat ag un ystafell wely a 2 fflat â dwy ystafell wely gyda chyfleusterau storio beiciau a gwastraff ar y safle.

16/02867/MJR – ADAMSDOWN

CANADIAN HOTEL, 143 PEARL STREET
Cynnig addasu, estyn a newid defnydd Canadian Public House i ddeuddeg fflatiau hunangynhaliol ag un ystafell wely gyda 5 man parcio ar y safle, cyfleusterau storio beiciau a gwastraff.

Yn amodol ar bwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo rhannu'r cyfraniad ariannol cyfan.

Yn amodol ar Argymhelliad 7 ychwanegol a fydd yn darllen:

'Y bydd gwerthwr/landlord yr eiddo yn ei wneud yn glir i brynwyr/tenantiaid posibl na fyddai byw yn y fflatiau yn rhoi hawl i breswylwyr gael trwydded parcio.

# CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD.

17/01206/MJR – PONTPRENNAU/PENTREF LLANEIRWG

TIR CYFAGOS Â CHEFN EURWG, DRUIDSTONE ROAD
Dwy annedd ar wahân arfaethedig gyda phob mater wedi'i gadw.

17/01460/DCO – RHIWBEINA

17/01460/MNR, RHAN O'R TIR AR SAFLE 16 PORTHAMAL ROAD
Annedd newydd ag un ystafell yn nghefn 16 Porthamal Road

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

17/00406/MNR – CAERAU

THE CAERAU, BISHOPSTON ROAD
Dymchwel y tafarndy ac adeiladu tair uned manwerthu gyda chyfleuster parcio cysylltiedig.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

17/00969/MNR – CAERAU

CARTREF GOFAL TŶ NEWYDD GYNT, 343 HEOL TRELAI
Datblygu 16 annedd fforddiadwy ar safle blaenorol Gofal Cartref Tŷ Newydd (gan gynnwys tir yng nghefn Heol Trenewydd) yn cynnwys 6 fflat cymorth, 8 fflat heb lifft a 2 fyngalo, tirlunio cysylltiedig, mynediad, draenio a gwaith priffyrdd.

RHESWM: Wedi tynnu yn ôl gan yr ymgeisydd.

20 : CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN BWERAU A DDIRPRWYIR

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified